Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad ategol ar arolygu byw'n iach (gan gynnwys gweithgarwch corfforol a bwyd a diod)

Medi 2010

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Beth yw'r diben?

I roi arweiniad i arolygwyr i arfarnu deilliannau a darpariaeth ar gyfer byw'n iach pan fydd yn drywydd ymholi.

Ar gyfer pwy y'i bwriadwyd?

Pob arolygydd ysgolion a gynhelir.

Pryd dylai'r arweiniad ddechrau cael ei ddefnyddio?

O Fedi 2010.

1 Cyflwyniad

Mae arolygu lles dysgwyr yn flaenllaw yn fframwaith arolygu cyffredin 2010. Mae byw'n iach yn cyfrannu tuag at les.
Mae hyrwyddo byw'n iach yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae sawl menter yn ceisio annog bwyta ac yfed yn iach yn ogystal â phwysigrwydd ymarfer corff.

Bwyta ac yfed yn iach

Yn unol â 'Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009'[1], mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol a'r ysgolion a gynhelir yng Nghymru hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r Mesur yn mynnu bod llywodraethwyr:

- yn cymryd camau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a chynnwys gwybodaeth am sut mae hyn yn cael ei wneud yn eu hadroddiad blynyddol; ac

- ystyried unrhyw arweiniad a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Daw'r Mesur i rym yn unol â Gorchymyn Cychwyn gan Weinidogion Cymru, ond nid oes unrhyw Orchymyn Cychwyn wedi cael ei wneud hyd yma. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arweiniad statudol mewn cysylltiad â bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r Mesur yn mynnu bod Estyn yn ystyried y camau mae'r ysgolion yn eu cymryd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae Cynllun Gweithredu Blas am Oes[2] yn pennu'r cyfeiriad strategol a'r camau sy'n ofynnol i wella safonau maeth y bwyd a'r diod sy'n cael eu darparu mewn ysgolion yng Nghymru. Mae disgwyl i Brosiect Ymchwil Gweithredu Blas am Oes fod wedi'i gwblhau yn ystod haf 2010 a bydd canlyniad y gwaith hwn yn llywio datblygiad pellach menter Blas am Oes a gweithrediad y Mesur.

---

[1] http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2009/mwa_20090003_en_1
[2] Cynllun Gweithredu Blas am Oes Chwefror 2008. Gweler http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091207appetiteforlifeen.pdf

Ymarfer corff

Mae menter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (PESS), Campau'r Ddraig, cynlluniau 5x60 mewn ysgolion uwchradd a llawer o ddatblygiadau dan arweiniad y Cyngor Chwaraeon wedi cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Dylai'r cyfleoedd ychwanegol gwell i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a'r lefelau ffitrwydd uwch gael eu hystyried yng nghyd-destun strategaeth 'Creu Cymru Egnïol'[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae byw'n iach hefyd yn cynnwys lles meddyliol ac emosiynol da; ymddygiad rhywiol cyfrifol; agweddau ac ymddygiad cyfrifol o ran defnyddio a chamddefnyddio sylweddau; diogelwch; hylendid a materion amgylcheddol. Bydd cymryd rhan yng Nghynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn cynorthwyo ysgolion ym mhob un o'r meysydd hyn.

[3] http://wales.gov.uk/docs/phhs/publications/activewales/100121activewalesen.pdf

2 Arfarnu byw'n iach

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi cwestiynau i'r arolygwyr eu hystyried wrth arfarnu byw'n iach. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â thri chwestiwn allweddol y fframwaith arolygu cyffredin[4].

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.2 Lles

- A oes gan y dysgwyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd byw'n iach a ffitrwydd?
- A yw'r dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu darparu i fyw'n fwy iach a gwella ffitrwydd?
- A yw'r dysgwyr yn dangos eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau hyn?
- I ba raddau mae'r dysgwyr yn cyfrannu at waith yr ysgol ar fyw'n iach?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Profiadau dysgu

- A yw'r disgyblion yn cael y cyfle i feithrin eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o fyw'n iach drwy'r cwricwlwm a thrwy waith a phrosiectau allgyrsiol?
- A yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd i feithrin ac ymestyn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o fyw'n iach mewn pynciau ar wahân i Addysg Gorfforol, ABCh a thechnoleg dylunio?

2.2 Addysgu

- A yw'r athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i feithrin dealltwriaeth y disgyblion o fyw'n iach?

2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

- A yw'r ysgol yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn mentrau sy'n hyrwyddo byw'n iach?
- A yw'r ysgol wedi ennill unrhyw wobrau am hyrwyddo byw'n iach?
- A yw'r ysgol yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol yn cynorthwyo ei gwaith ar fyw'n iach?
- A oes gan yr ysgol bolisi effeithiol ac ymarferol mewn cysylltiad â byw'n iach?

[4] Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010

2.4 Yr amgylchedd dysgu

- A yw amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys y mannau bwyta, y cyfleusterau chwaraeon a'r mannau cyhoeddus yn hyrwyddo byw'n iach?

- A oes gan yr ysgol gyfleusterau da ar gyfer bwyta'n iach a gweithgareddau corfforol?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

- Pa mor dda mae'r ysgol yn cyfathrebu sut mae'n hyrwyddo byw'n iach wrth y disgyblion, y rhieni a'r gymuned ehangach?

3.2 Gwella ansawdd

- Sut mae'r ysgol yn mesur effaith ei gwaith ym maes byw'n iach ar ddeilliannau disgyblion, gan gynnwys agweddau ac ymddygiad?

3.3 Gweithio mewn partneriaeth

- Pa mor dda mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynorthwyo dysgwyr i fyw'n iach?

3.4 Rheoli adnoddau

- A yw'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i hyrwyddo byw'n iach?

- A oes gan staff yr ysgol ddealltwriaeth dda o fyw'n iach?

Ffynonellau tystiolaeth

Gall yr holiaduron i ddysgwyr a rhieni, trafodaethau gyda dysgwyr a'r staff, yn ogystal ag arsylwi'n gyffredinol o gwmpas yr ysgol, fod yn ffynonellau tystiolaeth allweddol er mwyn arfarnu byw'n iach. Er enghraifft, mae'r holiadur i ddysgwyr yn cynnwys dau gwestiwn sy'n ymwneud â byw'n iach yn uniongyrchol:

- mae'r ysgol yn fy addysgu sut i gadw'n iach; ac

- mae digonedd o gyfleoedd i mi ymarfer corff yn rheolaidd yn yr ysgol.

Mae'r ymatebion i'r holiaduron a'r trafodaethau gyda dysgwyr yn debygol o roi tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2 am les y dysgwyr yn ogystal â darpariaeth yr ysgol ar gyfer lles yn Nangosydd Ansawdd 2.3 am ofal, cymorth ac arweiniad. Bydd yr arolygiad hefyd yn cynnwys sylwebaeth fer am ganlyniadau'r holiaduron i ddysgwyr.

Dylai'r llywodraethwyr allu rhoi gwybodaeth am y camau mae'r ysgol wedi'u cymryd i hyrwyddo bwyta ac yfed iach ymhlith ei disgyblion. Dylai'r adroddiad blynyddol i rieni gynnwys gwybodaeth am y camau hyn. Yn ogystal, dylai adroddiad hunanarfarnu'r ysgol roi sylw am effaith y camau hyn.